**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee inquiry into the general principles of the Tertiary Education and Research (Wales) Bill**

**TER 39**

**Ymateb gan: Prifysgol Abertawe**

**Response from: Swansea University**

---

**1 Cyflwyniad**

1.1 Rydym yn croesawu'r gwaith craffu ar Fil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ac yn ddiolchgar i'r pwyllgor am y cyfle i gyflwyno sylwadau ar gynnwys y Bil drafft.

1.2 Rydym yn cydnabod y cyflwynwyd nifer o ddiwygiadau mewn ymateb i bryderon a fynegwyd ar ôl i'r bil drafft gael ei gyhoeddi. Rydym yn croesawu'r newidiadau cadarnhaol a wnaed, yn enwedig ynghylch y newidiadau i ddyletswyddau cyffredinol y Comisiwn.

1.3 Rydym yn parhau i gefnogi'r Bil a'r uchelgais i gryfhau ymagwedd strategol Cymru at addysg a hyfforddiant ôl-16.

**2 Ymchwil ac Arloesi**

2.1 Er ein bod yn croesawu'r ffaith y cyflwynwyd y naw dyletswydd strategol y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu cyflawni, rydym yn credu bod hepgor dyletswydd benodol mewn perthynas â hyrwyddo ymchwil ac arloesi yn gyfle coll, yn enwedig o ystyried rôl prifysgolion Cymru wrth gefnogi'r economi sylfaenol ac wrth gyflawni blaenoriaethau ymchwil ac arloesi Llywodraeth Cymru.

2.2 Mae'n ymddangos yn anarferol nad yw Comisiwn ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn cynnwys ymchwil ac arloesi ymysg ei ddyletswyddau strategol. Nid ydym yn credu bod y naw dyletswydd bresennol yn ymdrin yn ddigonol nac yn briodol â'r ddyletswydd i hyrwyddo ymchwil ac arloesi.

2.3 Er bod dyletswydd gyffredinol yn cwmpasu ymchwil ac arloesi (adran 104), rydym o'r farn bod dyletswydd gyffredinol yn annigonol os yw'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil am adfywio'r sefyllfa addysg, hyfforddiant ac ymchwil ôl-16 yng Nghymru, a byddem yn croesawu'r posibilrwydd o ystyried y mater hwn ymhellach.

## 3 Materion eraill

3.1 Byddem hefyd yn amlygu'r materion canlynol nad ymdriniwyd â hwy'n ddigonol eto yn ein barn ninnau:

3.2 Er y gwnaed newidiadau cadarnhaol mewn perthynas â rhyddid academaidd, mae'n ymddangos bod y ddyletswydd fel y'i nodir ar hyn o bryd yn berthnasol i ddarpariaeth addysg uwch yn unig a byddem yn croesawu eglurhad o'r mater hwn.

3.3 Gan nad oes unrhyw ddyletswydd gyffredinol ar weinidogion Cymru i ddiogelu ymreolaeth sefydliadol prifysgolion ar hyn o bryd, rydym yn teimlo y gall y sector addysg uwch fod dan anfantais o ganlyniad anfwriadol i ddiffyg diogelwch y byddai dyletswydd o'r fath yn ei ddarparu.

3.4 Mae'r Bil drafft yn caniatáu i ddeddfwriaeth sylfaenol gael ei diwygio maes o law drwy reoliadau. Byddem yn nodi ein pryder y gellid penderfynu ar nodweddion allweddol o'r Bil heb y broses ddeddfwriaethol sylfaenol lawn o ganlyniad i'r ymagwedd hon.

3.5 Mae'r pwerau newydd i fynnu gwybodaeth y mae'r bil drafft yn eu rhoi i weinidogion Cymru yn destun pryder o hyd. Mae perygl y bydd ein Prifysgol (a sefydliadau addysg uwch eraill) yn ystyried bod gwybodaeth benodol y gofynnir amdani (e.e. data o gyflwyno'r cais i dderbyn y cynnig) yn sensitif ac na ddylid ei rhannu y tu allan i'r sefydliad, rhywbeth a allai achosi problemau i sefydliadau addysg uwch wrth gydymffurfio â cheisiadau o'r fath.

3.6 Er yr ymdriniwyd â rhai o'n pryderon am lefel annibyniaeth hyd braich y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ar Lywodraeth Cymru, rydym yn nodi bod y Bil drafft yn dal i ganiatáu i weinidogion Cymru ymyrryd yn ymagwedd strategol a gweithrediad y Comisiwn, ac i benodi'r Cadeirydd. Rhaid i'r Comisiwn fod yn gorff annibynnol er mwyn gweithredu'n effeithiol. Felly, rydym yn gofyn am sicrwydd y diogelir annibyniaeth y Comisiwn ac yr ystyrir lleihau pŵer gweinidogion Cymru i gyfarwyddo ei weithgareddau a'i gyllid.

3.7 Nodwn hefyd, yn y cyd-destun hwn, nad oes dim yn amodau a thelerau ariannu'r Comisiwn sy'n atal gweinidogion Cymru rhag pennu cyrsiau neu feysydd ymchwil sy'n gymwys i gael y cyllid. Rydym yn credu bod hyn hefyd yn bygwth ymreolaeth sefydliadol, a bod perygl y bydd yn eithrio ymchwil sylfaenol ac ymchwil yn y celfyddydau, y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol yr ystyrir o bosib eu bod yn llai perthnasol i ddatblygu economaidd ac arloesi.

3.8 Rydym yn nodi bod y Bil drafft yn cadw'r pŵer i ddiddymu corfforaethau addysg uwch yng Nghymru yn groes i'w hewyllys, ac rydym yn cynghori y gallai hyn, pe bai'n cael ei roi ar waith, beri i'r Comisiwn fynnu bod prifysgolion yn gweithredu'n groes i gyfraith elusennau. Rydym yn ansicr ynghylch y rhesymeg dros gadw'r pŵer hwn.

3.9 Er ein bod yn croesawu'r ffaith y dilëwyd y Cynlluniau Mynediad a Chyfle, rydym yn nodi bod prinder gwybodaeth am y trefniadau newydd i'w disodli, a bod y pŵer i'w

mynnu'n parhau. Byddem yn gofyn am eglurhad fel y gallwn ddeall y trefniadau arfaethedig ar gyfer goruchwyliaeth reoleiddiol ac ymateb iddynt.

3.10 Yn olaf, mae'r amserlen ar gyfer rhoi'r Comisiwn newydd ar waith yn heriol. Er ein bod yn cydnabod yr uchelgais i sefydlu'r Comisiwn yn unol â'r cynlluniau presennol yn 2023, efallai fel Comisiwn “cysgodol” â’r nod o’i roi ar waith yn llawn erbyn 2025, mae'n destun pryder i ni o hyd y gall ehangder y trefniadau rheoleiddiol newydd a fydd yn ofynnol amharu ymhellach ar y broses o roi'r Comisiwn ar waith, gyda chanlyniadau dilynol cysylltiedig ar gyfer sefydliadau yng Nghymru. Byddwn yn gweithio gyda'r Comisiwn er mwyn sicrhau cyfnod pontio effeithiol a llyfn, ond byddem yn gofyn i'r pwyllgor ystyried y gwaith rheoleiddiol sylweddol a fydd yn ofynnol er mwyn sicrhau llwyddiant y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.